CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher yr 2ail o Fedi 2026 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng.Sion Alun Roberts (Cadeirydd), Idris Jones, John P Jones, Berwyn Harding, Catrin Johnson, Lynne Mccrickett, Rhys Davies a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng Sion Alun Roberts.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Orffennaf ar gynnig Cyng Idris Jones a'i eilio gan Cyng John P Jones.

4. **Materion yn codi**

a) **Materion Llwybrau, Priffyrdd a Chefnffyrdd. –** adroddwyd am y materion diweddaraf. Roedd angen cael lluniau am sefyllfa pont Aberangell, a byddai'r Clerc yn trefnu.

b) Dyfodol Eglwys Llanymawddwy. – nid oedd unrhyw ddiweddaraid

c**) Gwaith ar safle y gofgolofn yn Minllyn –** roedd trafodaeth wedi bod gyda Cyng Lynne Mcrickett, ac roedd angen penderfynnu. Gwelwyd fod yr amcangyfrif gan DM Building Services am £550 yn llawer mwy na'r cyfraniad o £200 a addawyd yn flaenorol. Penderfynwyd yn unfrydol cadw i'r ffigwr o £200, gan mai dyna oedd y dealltwriaeth gwreiddiol, ac mai ewyllys da oedd hyn, ac nad oedd yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned beth bynnag. Hefyd roedd £400 wedi ei neilltuo ar gyfer y gwaith tarmac sydd yn arwain at y gofeb. Byddai'r Clerc yn danfon at Stuart England.

d) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned. Atgoffwyd pawb o'r diweddaraf, a'r 3 syniad allai fynd ymlaen yn awr, sef ;

- Cyng Sion A. Roberts/John P Roberts – gwneud bwrdd gwybodaeth am enwau mynyddoedd ym mhen uchaf Llanymawddwy, a'i roi ger Brynawel – roedd hyn ar y gweill.

- Cyng John P Roberts/Sion A Roberts – cael cerrig i wella y maes parcio yn Llanymawddwy – roedd hyn ar y gweill.
- Cyng Wyn Lewis/ Lynn Mcrickett – cael arwydd 'Parcio' yn y Plas yn Dinas.

  Yn y cyfarfod diwethaf roedd e-bost i law gan Arfon i'r Cyng Wyn Lewis yn gofyn a ellir cael llythyr yn gofyn i Cwmni Nod Glas Cyf. am 'ganiatâd i roi'r arwydd Parcio fyny fel bod y ddwy ochr yn cytuno I'r bwriad a sut bydd yn cael ei osod a phwy fydd yn gwneud y gwaith' . Roedd Cyng Wyn Lewis wedi danfon ymateb, a chopio y Clerc yn y gohebiaeth. Adroddwyd am e-bost pellach gan Arfon, a darllenwyd yn llawn I'r cyfarfod. Yng ngwyneb y cynnwys, penderfynwyd ar gynnig gan Cyng Catrin Johnson a'I eilio gan Cyng Idris Jones, gyda chefnogaeth unfrydol, i beidio mynd ymlaen efo hyn.

e) **Asesiadau risc y mynwentydd** – adroddwyd am ohebiaeth gan Rhys Bleddyn, yn nodi ail doweli ac angori bedd y diweddar Lewis Thomas a Margaret Thomas.

Mynwent Mallwyd – adroddwyd gan Cyng Lynn Mcrickett ei bod wedi ymweld a'r fynwent, ac nad oedd yn gweld perygl i'r cyhoedd.

Byddai'r Clerc yn diweddaru yr asesiad risc.

f) Adroddodd y Clerc ei fod wedi gohebu gyda Claire Griffiths, 1 Bryn Dyfi ynglyn a'r angen i dorri 3 coeden ar dir Comin gerllaw – yn dilyn y cyfarfod diwethaf, a dweud na fedrai y Cyngor gyfrannu. Roedd cydnabyddiaeth a diolch i law ganddi.

5. Materion Cynllunio

Nid oedd unrhyw faterion cynllunio gerbron.

6. Materion Cyllid.

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, (2.09.26), sef Cyfri Cyfredol £16,730.38 Cyfri Claddedigaeth £1568.79, Cyfri Cadw £803.19.

Cadarnhawyd fod y Cadeirydd wedi ei ychwanegu i'r rhestr arwyddo ar ran y Cyngor Cymuned. Byddai y broses o symud i bancio ar-lein yn parhau.

b) **Anfonebau i'w talu;**

Ar gynnig Cyng Berwyn Harding a'I eilio gan Cyng Rhys Davies, cytunwyd i dalu'r canlynol;

- G W Davies - torri gwair mynwentydd - £900
- John Arfon Owen – agor bedd ym mynwent Dinas ar gyfer gwasanaeth 20/07/26 - £600
- Ffioedd Archwilio 24/25 gan Archwilio Cymru - £202.27
- Archwiliad Mewnol Cyngor Gwynedd 25/26 - £360

c) Ceisiadau am arian

Radio Ysbyty Gwynedd – penderfynwyd peidio cyfrannu.

7. Gohebiaeth.

a) Nodwyd Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru, a byddai'r Clerc yn trefnu fel bo'r angen.

b) Darllenwyd yn llawn lythyr gan Bwyllgor y Neuadd ynglyn a'r gwaith insiwleiddio sydd ar y gweill yn y neuadd (fel rhan o'r gwelliannau). Roedd y contractor wedi dweud bod rhaid symud yr arhosfan bws oddiwrth y neuadd gan nad oes digon o le i'w osod fel y mae ar hyn o bryd.

Trafodwyd yn fanwl, a chytunwyd i'w symud. Nodwyd bod rhaid gofyn i Gyngor Gwynedd yn y lle cyntaf a ydynt yn fodlon symud yr arhosfan, gan ei fod wedi ei osod ganddynt yn ol y dealltwriaeth.

Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cyng Catrin Johnson.

c) Nodwyd e-bost gan Gyngor Gwynedd ynglyn ag Arolwg diwygio bysiau Gogledd Cymru (danfonwyd allan i bawb 20.08.26.) Roedd angen rhoi hysbysrwydd i hyn, a chytunodd Cyng Lynne Mcrickett roi posteri, a diolchwyd iddi.

d) Nodwyd ohebiaeth am grantiau 'Perthyn' i grwpiau Cymunedol (danfonwyd allan i bawb 24.08.26)

e) Roedd e-bost i law gan Olwen Jones yn nodi fod cyn dy Cyngor ar werth yn Lawnt y Plas, ac yn awgrymu a ddylid annog y 'Cyngor Sir' ei brynu er mwyn iddo ddychwelyd i stoc tai ar rent. Cytunwyd a'r awgrym, a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Adra.

Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cyng Catrin Johnson.

f) Nodwyd ohebiaeth am Cronfa Ynni Gwynedd a oedd wedi ei ddanfon allan i'r Cynghorwyr 2.09.26.

8.. Unrhyw Fater arall.

a) Roedd coed wrth Bont y Brook angen eu torri, gan eu bod yn gwyro i'r ffordd ac ar linellau BT.

b) Gofynnwyd paham fod y Post mor hwyr bellach yn cyrraedd Dinas – tua 4.30.

c) Awgrymodd y Cadeirydd y syniad o gychwyn grwp 'whats app' i Gynghorwyr Mawddwy. Pwysleisiwyd mai ar gyfer rhannu gwybodaeth a negeseuon fyddai hwn, a gwella cyfathrebu, ac nid ar gyfer gwneud penderfyniadau. Roedd yn bwysig cofio fod gwaith y Cyngor yn gyhoeddus, a bod hawl i'r cyhoedd glywed trafodaeth a phenderfyniadau os oeddynt yn dymuno.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 7fed o Hydref 2026 , 7.30y.h.